Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig:
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development:
Europe Investing in Rural Areas

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk



# Glastir

## Glastir Adfer Coetir

## Llyfryn Rheolau

## Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020

Fersiwn 8 – Mawrth 2020



© Crown Copyright 2020 ISBN 978-1-4734-3525-4

# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| **Prif Negeseuon** | 5 |
| **Adran A – Cyflwyniad** | 9 |
| • Geirfa | 10 |
| **Adran B – Pwy sy'n gymwys?** | 11 |
| **Adran C – Pa dir sy'n gymwys** | 12 |
| • Ariannu o Ffynonellau eraill | 12 |
| **Adran D - Rheolau Adfer Coetir Glastir** | 13 |
| • Yr Ardal Fwyaf sy'n Gymwys i gael Cymorth o dan gynllun Adfer Coetir Glastir | 13 |
| • Gwaith Cyfalaf - Ailblannu | 13 |
| • Rheolau penodol Adfer Planhigfeydd ar Safleuoedd Coetir Hynafol (PAWS) | 13 |
| • Planhigfa ar Safleoedd Coetir Hynafol (PAWS) | 14 |
| • Opsiynau ailstocio ar gyfer PAWS | 14 |
| • Planhigfa ar Safleoedd nad ydynt yn Goetiroedd Hynafol (PAWS) | 15 |
| • Newidiadau i anghenion rhywogaethau ar gyfer Trwydded Cwympo | 15 |
| • 615 Gwaith Cyfalaf, Ailstocio Sylfaenol - uwchben 350 metr | 15 |
| • 618 Gwaith Cyfalaf, Ailstocio Sylfaenol - rhwng 250 a 350 metr | 16 |
| • 619 Gwaith Cyfalaf, Ailstocio Sylfaenol - o dan 250 metr | 16 |
| • 631 Gwaith Cyfalaf, Coed Llydanddail Brodorol | 17 |
| • 632 Gwaith Cyfalaf, Coed Llydanddail Brodorol | 17 |
| • Mannau Agored | 17 |
| • Cyfraddau'r Taliadau | 18 |
| • Gwaith Cyfalaf Arall | 18 |
| • Rhanddirymiadau | 19 |
| • Ymgynghori | 19 |
| **Adran E - Sut i wneud Cais** | 20 |
| • Dethol Mynegi Diddordeb | 20 |
| • Cynllun Rheoli Coetir | 21 |

- Taliad Cymorth Cynllun Rheoli Coetir – Ailstocio PAWS yn unig 22
- Cynnig Contract 22
- Hawlio Taliad 23

**Adran F – Newid y Contract** 24

- Trosglwyddo neu Werthu Tir sydd o dan Gontract 24
- Newidiadau i'r Tir 24
- Newidiadau i'r Ddeddfwriaeth (gan gynnwys Dehongliadau Newydd) 25
- Newidiadau i Reolau'r Cynllun 25

**Adran G – Archwiliadau a Chofnodion** 26

- Arolyngion Gweinyddol 26
- Archwiliadau Fferm 26
- Cadw Cofnodion 26

**Adran H – Cosbau** 27

- Torri'r Contract 27
- Cosbau'r Gwaith Cyfalaf 27

**Adran I - Y Drefn Apelio** 28

- Y Drefn Gwyno 28

**Adran J – Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol: Hysbysiad Preifatrwydd** 29

- Rhesymau dros Rannu Data Personol 30
- Cyhoeddi a Datgelu Gwybodaeth 31
- Hawliau o dan **Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)** 31
- Gofyn am Ragor o Wybodaeth 32

**Adran K – Manylion Cysylltu** 33

## Prif Negeseuon

- Mae newidiadau wedi eu cyflwyno i Glastir Adfer Coetir (GWR), yn effeithiol o'r ffenestr Datgan Diddordeb (DOD) yma.
- Y cyllid ar gael i'r DOD GWR yma yw £2 miliwn.
- Wnaiff y 8fed DOD o GWR agor ar 16 Mawrth 2020 a cau am hanner nos 24 Ebrill 2020
- Mae'r DOD yma ar gael i ymgeiswyr llwyddiannus a fydd yn gallu cwblhau yr holl waith cyfalaf a phlannu erbyn unai 31 Mawrth 2022 neu 31 Mawrth 2023.
- Pan yn derbyn dewisiad, bydd gofyn i ymgeiswyr llwyddiannus i ddatgan ym mha Flwyddyn Hawlio y maent yn bwriadu hawlio ei gwaith cyfalaf orffenedig. Caiff cyflwyniad o hawliadau ar gyfer gwaith cyfalaf eu rhwystro i un allan o ddau o Flynyddoedd Hawlio am gontract. Gweler y tabl isod.

| | **Dyddiad cyntaf i gyflwyno hawliad** | **Dyddiad olaf i gyflwyno hawliad** |
|---|---|---|
| **Blwyddyn Hawlio 1** | 01 Ebrill 2021 | 31 Mawrth 2022 |
| *Neu* | | |
| **Blwyddyn Hawlio 2** | 01 Ebrill 2022 | 31 Mawrth 2023 |

- Efallai bydd angen i Llywodraeth Cymru ddiwygio y Flwyddyn Hawlio yr ydych wedi ei ddewis os fydd anghenion cyllido angen eu darparu o dan Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014 i 2020
- Cewch gyflwyno DOD yn GWR os oes gennych trwydded cwympo coed sydd yn cynnwys llarwydd, cyfeirnod cais trwydded cwympo neu Hysbysiad Iechyd Planhigion Statudol.
- Mae'n rhaid i chi gyflwyno y trwydded cwympo, cais am drwydded cwympo gyda rhif cofnodi neu Hysbysiad Iechyd Planhigion Statudol (SPHN) gyda eich DOD, neu cyn 24 Ebrill 2020 ar gyfer asesiad gan Llywodraeth Cymru. Ni fydd Llywodraeth Cymru yn ystyried unrhyw ddogfennau a gyflwynwyd i ategu unrhyw DOD a gyflwynwyd mewn ffenestr hanesyddol o GWR. **Bydd methiant i wneud hyn yn arwain i'r caeau gael ei gwrthod.**
- Mae GWR yn arlwyo gwaith cyfalaf ar gyfer ail-blannu, ffensio a gweithgareddau cysylltiedig ar safleoedd ble mae llarwydd ac hyd at 50% o rhywogaethau sydd ddim yn llarwydd.

- I fod yn gymwys am gefnogaeth i ail-blannu eich coetir, bydd rhaid i chi gyflwyno Cynllun Rheoli Coetir am y safle sydd yn gymwys yw adfer.

- Bydd Cwsmeriaid sydd yn derbyn contract Glastir Adfer Coetir ble mae PAWS yn cael ei ail-blannu yn gymwys i hawlio un taliad grant yn unig o £1500 tuag at y gost o gynhyrchu cynllun. Dylai'r cynllun yma ystyried yr ardal rheolaeth coetir yn ei gyfanrwydd, yn cynnwys yr ardal sydd yn cael ei gyflwyno ar gyfer grant adfer drwy GWR. Ni chaiff ychwaneg o daliadau cynlluniau rheoli eu trawsgronni mewn rowndiau olynol o GWR.

- Bydd rhaid i Gynlluniwr Cofrestredig ysgrifennu'r Cynllun GWR ar gyfer adfer PAWS o dan GWR sydd yn cydymffurfio â Safonau Coedwigo'r Deyrnas Unedig (UKFS).

- Os yr ydych yn hawlio'r grant Cynllun GWR, bydd angen gwireddu adfer y PAWS a gyflwynwyd yn y rownd yma o GWR o fewn y cyfnod hawliad. Bydd methiant i gario allan yr adfer..

- Rydym yn cynghori Cwsmeriaid a fydd yn dymuno gwneud budd o'r grant i ystyried eu holl coetir, yn sicr yr holl llarwydd sydd ganddynt, oherwydd falle y dymunent ymgeisio am Glastir Uwch, ble fedrir ddefnyddio'r cynllun i atgyfnerthu rheolaeth coetir fferm, neu os am ymgeisio at unrhyw rownd dilynol o Glastir Adfer Coetir os daw i gynllun.

- I fod yn gymwys i gyflwyno Datganiad o Ddiddordeb mae'n rhaid i chi fod yn gallu cadw at y dyddiadau yn y tabl canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyflwyno eich Datganiad o Ddiddordeb gyda'r Trwydded Cwympo, Cais am Trwydded Cwymp, SPHN ategol rhwng | 16 Mawrth 2020 a 24 Ebrill 2020 |
| Ymateb iganlyniadau dewis o | Mehefin 2020 |
| **Os yn bwriadu hawlio yn flwyddyn hawlio 1 –** Cwblhau holl waith sefydlu a cyfalaf a chyflwyno hawliadau ar gyfer taliad erbyn | 31 Mawrth 2022 |
| **Os yn bwriadu hawlio yn flwyddyn hawlio 2 –** Cwblhau holl waith sefydlu a cyfalaf a chyflwyno hawliadau ar gyfer taliad erbyn | 31 Mawrth 2023 |
| Os cewch eich dewis a chynnig contract, rhaid derbyn y contract erbyn | 31 Rhagfyr 2020 |

- Byth hawliadau Cynllun Rheoli Coetir yn cael eu prosesu ar gyfer taliad ar ol y 1af o Ebrill 2021 yn dilyn derbyniad o hawliad Gwaith Cyfalaf dilys.

- Mae'r ffurflen mynegi diddordeb yng nghynllun Adfer Coetir Glastir wedi cael ei datblygu'n ddigidol ac mae ar gael drwy wasanaeth Taliadau Gwledig Cymru Ar Lein (RPW).

- Bydd angen Cyfeirif Cwsmer (CRN) arnoch a cyfrif RPW Ar Lein cyn ichi allu cael gafael ar y Ffurflen i Fynegi Diddordeb yng nghynllun Adfer Coetir Glastir.

- I gofrestru manylion eich busnes am y tro cyntaf, bydd angen ichi lenwi'r ffurflen gofrestru ar-lein. Darllenwch y canllaw ar sut i gofrestru i gael rhagor o fanylion. Gallwch newid y rhan fwyaf o fanylion eich busnes ar-lein. Ond os ydych am gofnodi newidiadau mawr, efallai y bydd Llywodraeth Cymru'n gofyn ichi am ragor o fanylion. Ffoniwch y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004 am ragor o wybodaeth. I gael gwybod rhagor am gofrestru gyda RPW Ar Lein neu gyflwyno Ffurflen Mynegi Diddordeb, darllenwch Adran E y llyfryn hwn.

- Dylech ddarllen y Llyfryn hwn a'r Canllawiau - Sut i Lenwi'r ffurflen mynegi diddordeb ar lein cyn ichi ei chyflwyno.

- Dylech sicrhau eich bod yn cyflawni'r holl feini prawf drwy gyfnod llawn blwyddyn y contract ac yna drwy'r cyfnod cynnal a chadw, sef 10 mlynedd ar ôl yr hawliad terfynol.

- Bydd angen ichi baratoi Cynllun Rheoli Coedwig a rhaid i hwnnw gydymffurfio â UKFS.

- A fyddech cystal ag ymateb yn brydlon i unrhyw ymholiadau gan Lywodraeth Cymru neu Cyfoeth Naturiol Cymru (NRW) am eich Datganiad o Ddiddordeb mewn Adfer Coetir Glastir. Os na fyddwch chi'n ymateb o fewn yr amser a nodir, mae'n bosibl y bydd oedi cyn cynnig contract Adfer Coetir Glastir ichi.

- Mae Goetiroedd Glastir wedi cael eu cymeradwyo gan y Comisiwn Ewropeaidd. Bydd cyhoeddusrwydd yn cael ei roi i unrhyw newidiadau i'r canllawiau ac ymrwymiadau Glastir yn Gwlad (www.gwladonline.org) a lle bydd angen, byddwn yn cysylltu busnesau fferm a rheolwyr tir y bydd y newidiadau hyn yn effeithio arnynt.

## CYMORTH GWLADWRIAETHOL

1. Mae grantiau sy'n cael eu rhoi o dan y cynllun hwn yn gymorth sy'n dod o fewn cwmpas fframweithiau Cymorth gwladwriaethol. Mae Erthyglau 107, 108 a 109 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd (TFEU) yn berthnasol i'r cymorth a roddir ar gyfer datblygiad gwledig o dan Gymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru - Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 (cyf: SA 43465).

2. O'r 01 Gorffennaf 2016 ymlaen bydd gofynion Tryloywder Cymorth Gwladwriaethol, a nodir yn Erthygl 9 Rheoliad 702/2014 y Comisiwn sydd yn datgan bod categorïau penodol o gymorth yn y sectorau amaeth a choedwigaeth ac yn ardaloedd cefn gwlad gydnaws gyda'r farchnad fewnol yn y cymhwysiad o erthyglau 107 a 108 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd yn gofyn i bob gwobr o gymorth unigol (am Amaeth) sydd yn uwch na'r trothwy o €500,000 i gael ei adroddi yn uniongyrchol i'r Comisiwn Ewropeaidd pob 6 mis. Bydd y

wybodaeth yma’n cael ei gyhoeddi drwy Wefannau Tryloywder Llywodraeth Cymru a’r Comisiwn Ewropeaidd.

3. Mae grant sydd yn cael ei arlwyo o dan yr opsiynau canlynol yn y cynllun yma yn gymorth cydymffurfiol oherwydd ei fod yn parchu'r amodau sydd wedi eu nodi yn erthygl 34 a 35 o gytuniad y Comisiwn (UE) Rhif 702/2014 (Rheoleiddiad Rhwystr Rhyddhadau Amaethyddiaeth).

## Adran A - Cyflwyniad

Yng Nghymru, mae dros 20% o goetiroedd llarwydd wedi'u heintio gan y pathogen ffwngaidd Phytophthora Ramorum. Mae cynllun Adfer Coetir Glastir wedi cael ei ddatblygu er mwyn ailblannu coetir sydd wedi'u heintio gan Phytophthora ramorum neu ardaloedd lle y torrwyd llarwydd er mwyn arafu lledaenu'r clefyd. Pan fydd coetir yn cael ei lwyrgwympo, bydd cryn gyfle i sicrhau mwy o amrywiaeth yn rhywogaethau'r coed, gan greu coetir mwy cymysg a brodorol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i hybu amrywiaeth o rywogaethau yng Nghymru er mwyn gwneud ein coetir yn fwy cydnerth ac er mwyn iddynt allu cynnig amrywiaeth ehangach o fanteision.

Mae Adfer Coetir Glastir yn rhan o gynllun Coetir Glastir o dan Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020 a mae'n golygu ymrwymiad o 10 mlynedd. Bwriad cynllun Coetir Glastir yw cyflawni'r nodau amgylcheddol a ganlyn:

- Cyfrannu at wrthdroi'r dirywiad ym mioamrywiaeth frodorol Cymru
- Cynyddu naturioldeb Coetir Hynafol sydd wedi cael ei blannu yn unol a strategaeth Coetiroedd i Cymru.
- Lleihau allyriadau Carbon a Nwyon Tŷ Gwydr.
- Ymaddasu i newid yn yr hinsawdd a meithrin mwy o gydnerthnedd ar ffermydd ac mewn busnesau coedwigo.
- Rheoli ein hadnoddau dŵr i wella ansawdd dŵr a lleihau'r perygl o lifogydd.
- Cyfrannu at gynaliadwyedd economaidd ffermydd, coedwigoedd a'r gymuned wledig ehangach.
- Amddiffyn y tirwedd a'r amgylchedd hanesyddol gan wella mynediad ar yr un pryd.

Bydd Llywodraeth Cymru'n cynnig cymorth ariannol drwy gynllun Adfer Coetir Glastir i ailstocio coetir y mae Phytophthora ramorum yn bwgwth neu wedi effeithio arnynt. Detholir ymgeiswyr ar gyfer cynllun Adfer Coetir Glastir ar y sail eu bod wedi cael Hysbysiad Iechyd Planhigion Statudol (SPHN) neu lle y bydd rhywogaethau llarwydd wedi ei gynnwys ar eu trwydded cwympo.

Bydd angen i ymgeiswyr baratoi Cynllun Rheoli Coedwig sy'n cydymffurfio â UKFS cyn i'w cais gael mynd ymlaen i'w brosesu dan y contract. Bwriedir y llyfryn hwn ar gyfer coedwigwyr, ffermwyr a rheolwyr tir sy'n bwriadu cyflwyno ffurflen Mynegi Diddordeb mewn cynllun Adfer Coetir Glastir. Nid yw'r manylion hyn yn cynnwys popeth ac mae'n bosibl y byddant yn cael eu diweddaru.

Mae cynllun Adfer Coetir Glastir yn cael ei ariannu ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a'r Comisiwn Ewropeaidd fel rhan o Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020.

Mae cynllun Adfer Coetir Glastir yn cael ei lywodraethu gan Offeryn Statudol Cymru 3222 (w.327) sy'n berthnasol i'r Rhaglenni Datblygu Gwledig, Rheoliadau'r Cyngor (UE) Rhif. 1305/2013, 1303/2013, ac (UE) Rhif 1306/2013, Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 808/2014 ac (UE) Rhif 809/2014 a Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) 640/2014 ac 807/2014 (i gyd fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd). Mae copïau o'r Rheoliadau hyn ar wefan Llywodraeth Cymru yn llyw.cymru neu gallwch ofyn am gopïau gan Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid Taliadau Gwledig Cymru.

## Geirfa

| | |
|---|---|
| Llain: | mae hyn yn cyfeirio at ardal o goetir neu at ardal o goetir sydd wedi'i chwympo ac sydd yn mynd i gael ei hailstocio. |
| Coesynnau: | term sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer y coed ifanc sy'n cael eu plannu mewn llain. |

# Adran B – Pwy sy'n gymwys?

Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer cynllun Adfer Coetir Glastir:

- rhaid ichi fod yn gwsmer cofrestredig gyda Llywodraeth Cymru ac wedi cael Cyfeirif Cwsmer (CRN).
- rhaid i'ch tir fod wedi'i gofrestru gyda System Adnabod Parseli Tir Llywodraeth Cymru (LPIS).
- rhaid i arwynebedd y coetir fod o leiaf 0.25 hectar o dir cymwys.
- rhaid mai chi yn unig sy'n hawlio arian gan gynlluniau Cymorth Ewropeaidd (e.e. y Cynllun Taliadau Sylfaenol a Glastir) ar gyfer y tir.
- rhaid ichi fod gyda rheolaeth lawn o'r tir o phan gaiff y datganiad o ddiddordeb ei gyflwyno drwy gydol oes y contract a chyfnod llawn yr ymrwymiad. Os ydych ond yn dal trwydded pori ni fyddwch yn gymwys i wneud cais.
- ni ddylech fod wedi gwneud hawliad yswiriant na bod wedi cael taliad yswiriant am golli coed oherwydd Phytophthora ramorum.
- rhaid ichi gyflwyno cynllun Rheoli Coedwig sy'n cyflawni UKFS ac sydd wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

# Adran C – Pa dir sy'n gymwys

Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer cynllun Adfer Coetir Glastir, rhaid i'r tir:

- gynnwys llarwydd neu fod wedi cynnwys llarwydd sydd bellach wedi cael eu cwympo.
- fod o dan SPHN, Drwydded Cwympo neu Cais Trwydded Cwympo.
- fod yn dir sydd heb gael arian grant i'w ailstocio o dan gontract Rheoli Coetir Glastir presennol nac o unrhyw ffynhonnell arall. e.e. Rheoli Coetir Glastir neu Goetiroedd Gwell i Gymru.
- fod wedi bodloni pob caniatâd angenrheidiol gyda rhanddeiliaid a chyrff statudol.
- Peidio cael ei ddefnyddio i hawlio taliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin Ewropeaidd gan barti arall.
- gynnwys parseli caeau sy'n 0.1ha neu'n fwy mewn ardal.
- fod wedi'i leoli yng Nghymru.

## Ariannu o Ffynonellau eraill

Os ydych chi'n cael taliad o unrhyw ffynhonnell arall am waith o dan gynllun Adfer Coetir Glastir, byddai hyn yn cael ei ystyried fel ariannu dwbl. Er enghraifft, os ydych chi'n cael arian am weithgareddau gan y Gronfa Natur, efallai na fyddai'r ardaloedd lle mae'r gweithgareddau hyn yn digwydd yn gymwys ar gyfer y cynllun Adfer Coetir Glastir oherwydd y posibilrwydd o ariannu dwbl.

Ni allwch wneud cais i gynllun Adfer Coetir Glastir os yw'r llain o goetir a ddangosir ar y drwydded cwympo neu'r SPHN yn rhan o Coetir Gwell i Gymru ac nad oes hawliad wedi bod eto ar gyfer ailstocio.

Sylwch mai eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau nad ydych yn llofnodi contract ar gyfer cynllun Adfer Coetir Glastir sy'n gorgyffwrdd ag unrhyw gytundeb arall ac nad oes dim gwrthdaro rhwng gofynion y cynlluniau.

Os gwelir eich bod yn cael arian o ffynhonnell arall neu wedi cael arian o ffynhonnell arall ar gyfer ymrwymiadau o dan gynllun Adfer Coetir Glastir, gallai hyn arwain at gosbau ariannol, gorfod ad-dalu taliadau ac, o bosibl, fe ellid terfynu eich Contract.

## Adran D - Rheolau Adfer Coetir Glastir

Os llwyddwch i gael eich dethol ar gyfer cynllun Adfer Coetir Glastir, bydd gofyn ichi baratoi Cynllun Rheoli Coedwig sy'n cydymffurfio â UKFS (Comisiwn Coedwigaeth – Safon a Chanllawiau Coedwigaeth y DU). Bydd y Cynllun Rheoli Coedwig yn cael ei asesu gan Lywodraeth Cymru neu Cyfoeth Naturiol Cymru. Ar ôl cymeradwyo'r Cynllun Rheoli Coedwig, gellir cynnwys yr eitemau Gwaith Cyfalaf cymwys sydd wedi'u rhestru yn eu Cynllun Rheoli yng nghontract Adfer Coetir Glastir. Mae'r adran hon yn rhoi manylion eitemau'r gwaith cyfalaf sydd ar gael o dan gynllun Adfer Coetir Glastir.

Os yr ydych yn ystyried adfer PAWS bydd angen i chi gysylltu a Cynlluniwr Coetir Cofrestredig i gwblhau eich cynllun o'r restr manylion cyswllt Cynllunwyr Coetir Cofrestredig Glastir Llywodraeth Cymru yma.

**Yr Ardal Fwyaf sy'n Gymwys i gael Cymorth o dan gynllun Adfer Coetir Glastir.**

Bydd yr ardal fwyaf sy'n gymwys i gael cymorth o dan gynllun Adfer Coetir Glastir yn cyfateb i ddwywaith ardal y llarwydd a nodir yn yr Hysbysiad Iechyd Planhigion Statudol neu'r Drwydded Cwympo.

Er enghraifft, os bydd 1 hectar o larwydd yn cael ei ddangos ar eich Trwydded Cwympo, yr ardal fwyaf sy'n gymwys i gael arian o dan gynllun Glastir Adfer Coetir fydd 2 hectar.

### Gwaith Cyfalaf - Ailblannu

Mae'r gofynion canlynol yn berthnasol i holl opsiynau ailblannu sy'n Waith Cyfalaf:

- Rhaid i'r holl ail-blannu gael ei wneud yn unol â'r UKFS.
- Rhaid ailblannu o leiaf 2500 coesyn yr hectar.
- Rhaid cynnal a chadw'r coetir sydd wedi'i ailblannu am 10 mlynedd ar ôl dyddiad yr hawliad terfynol. Rhaid i 2500 o goesynnau fod yn fyw ar ddiwedd y cyfnod cynnal a chadw 10 mlynedd neu fod y canopi wedi'i gau. Os na lwyddir i gyflawni'r dwysedd stocio penodedig yn ardal y contract drwyddi draw, mae'n bosibl y bydyn rhaid ad-dalu'r taliadau.

### Rheolau penodol Adfer Planhigfeydd ar Safleuoedd Coetir Hynafol (PAWS)

Bydd angen i unrhyw ardal o PAWS sydd yw ail-blannu gael arolwg tir a map i gyd ddilyn y Cynllun Rheoli Coetir GWR er mwyn gael ei ystyried a'i gymeradwyo gan tîm gwirio Glastir

Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae canllawiau pellach ar gael yn *Gwaith Adfer PAWS – Canllawiau ar Arfer Gorau.*

Dim ond ardaloedd o PAWS sydd yn cael ei nodi ar yr Rhestr o Goetiroedd Hynafol (AWI) 2011 a all gael eu ystyried yn gymwys ar gyfer gefnogaeth un-waith o £1500 am gynllun Rheoli Coetir o dan GWR. Medr data AWI 2011 gael ei weld, neu ei lawr lwytho drwy Porth-Daear Lle yma.

Os caiff eich datganiad o ddiddordeb ei ddewis, fe wnewch chi dderbyn map Geo PDF o'r ardal yn dangos haen AWI 2011.

Ni fydd unrhyw ardal sydd yn cwympo y tŷ allan ir haen AWI 2011 yn cael ei ystyried fel PAWS ar gyfer diben GWR.

Mae canllawiau pellach ar cymorth ffi Cynllun Rheoli Coetir ar gael yn Adran E o'r Llyfryn Rheolau yma.

## Planhigfa ar Safleoedd Coetir Hynafol (PAWS)

Os yw'r ardal rydych yn bwriadu ei hailstocio'n ymddangos fel PAWS ar y GeoPDF bydd angen i Cynlluniwr Coetir Cofrestredig Glastir ysgrifennu'r cynllun yn o gystal a asesiad PAWS. Mae'n rhaid i hyn ddilyn Gwaith Adfer PAWS – Canllawiau ar Arfer Gorau a geir ar wefan Llywodraeth Cymru yma. Bydd angen ir Cynlluniwr arolygu'r coetir, os yn bosib cyn i'r coed gael eu cwympo, a asesu'r Meini Prawf Pwysig Ecolegol, yr Meini Prawf Datblygu Ecolegol a Bygythiadau i feddiannu sgôr Potensial Ecolegol. Bydd tîm gwirio Glastir Cyfoeth Naturiol Cymru yn gwirio'r Cynlluniau Rheoli Coetir ac efallai yn archwilio cynllun fel rhan o'r broses wirio.

Bydd rhaid cyflwyno map digidol manwl gywir, anodedig sydd yn dangos Meini Prawf Pwysig Ecolegol a Bygythiadau gyda'r Cynllun Rheoli Coetir.

Bydd yr opsiynau ailstocio ar gyfer PAWS yn dibynnu ar sut mae'r ardal a gyflwynwyd ar gyfer grant yn cael ei flaenoriaethu (Uchel, Canolig neu Isel). Dylech sicrhau bod unrhyw gymysgedd rhywogaethau coed brodorol lydanddail yn addas i'r safle.

## Opsiynau ailstocio ar gyfer PAWS

## Blaenoriaeth ailstocio Uchel

**Amcan** – cyflawni adferiad llawn i goetir frodorol lydanddail tra'n anelu am amodau ffafriol. Mannau pwysig a atborion wedi ei amddiffyn a'u cryfhau efo dichon i ehangu. 100% o ailstocio gyda llydanddail a phrysglwyn brodorol i'r safle.

**Opsiwn ailstocio** – 100% Gwaith Cyfalaf Glastir (CW) 631

### Blaenoriaeth Canolig

**Amcan** - PAWS Trosiannol/Adferedig – i gyflawni gwelliant fwy gymedrol tuag at amodau ffafriol h.y. adennill cyflwr (lleiafswm o 50% llydanddail brodorol yn y canopi) gyda dichon yn y dyfodol i wella amodau/adferiad llawn.

**Opsiwn ailstocio** – 45% Glastir CW 631; Hyd at 55% CW 615, 618, 619, 632 yn cynnwys 10% llydanddail brodorol.

### Blaenoriaeth Isel

**Amcan** – Rheoli'r safle fel PAWS yn unol a Safonau Coedwigo'r Deyrnas Unedig, cynnal, amddiffyn a chryfhau unrhyw atbor o goetir hynafol. Lleiafswm o 15% o ailstocio llydanddail brodorol i'r safle yn unol a Safonau Coedwigo'r Deyrnas Unedig.

**Opsiwn ailstocio** – 10% Glastir CW 631; Gweddill hyd at 90% CW 615, 618, 619, 632

### Planhigfa ar Safleoedd nad ydynt yn Goetiroedd Hynafol (PAWS)

Ar safleoedd nad ydynt yn blanhigfeydd ar safleoedd Coetir Hynafol, bydd angen ystyried faint yw uchder mewn metrau uwchben lefel y môr yw'r lleiniau a'r amrywiaeth o rywogaethau sydd i'w plannu.

### Newidiadau i anghenion rhywogaethau ar gyfer Trwydded Cwympo

Mae'r cyfansoddiad rhywogaethau ar gyfer cynllun Glastir Adfer Coetir yn medru fod yn wahanol i fanylyn y drwydded cwympo. Os yw'r cynllun Glastir Adfer Coetir yn cynnwys Planhigfa ar Safle Coetir Hynafol, bydd swyddog Cyfoeth Naturiol Cymru yn delio gyda ffurflen newid rhywogaethau ar ôl ymweld â'r safle. Bydd newid i'r rhywogaeth yn gorfod cydymffurfio gyda'r manylyn fel y caiff ei amlinellu yn Adfer PAWS - Canllawiau ar Arfer Gorau.

Os nad yw'r cynllun Glastir Adfer Coetir yn cynnwys Planhigfa ar Safle Coetir Hynafol, a mae angen newid i rhywogaeth bydd angen i'r cynlluniwr coetir gysylltu â'r tîm Caniatáu Cyfoeth Naturiol Cymru - forestregulations@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Mae pump gwahanol opsiwn ar gyfer Gwaith Cyfalaf ailstocio ar gael o dan gynllun Adfer Coetir Glastir. Mae'r Opsiynau Gwaith Cyfalaf hyn yn cynnwys:

### 615 Gwaith Cyfalaf, Ailstocio Sylfaenol - uwchben 350 metr

Mae'r opsiwn Gwaith Cyfalaf hwn ar gyfer ailstocio lleiniau lle bydd mwy na 50% o'r llain 350 metr uwchben lefel y môr (e.e. 1.4 ha (54%) o'r llain uwchben 350 metr ac 1.2 ha

(46%) o dan 350m). Mae'n dderbyniol rhannu'r llain ar hyd y gyfuchlin berthnasol er mwyn gallu defnyddio'r opsiwn priodol uwchben y llinell ac o dani.

Rhaid plannu rhywogaethau coed llydanddail ar o leiaf 10% o ardal y llain.

Gellir plannu rhywogaethau llydanddail, rhywogaethau conwydd neu gymysgedd o'r ddwy ar weddill ardal y llain (90% ar y mwyaf). Rhaid plannu dwy wahanol rywogaeth fan leiaf, ac ni cheir plannu'r un rhywogaeth ar fwy na 75% o'r llain.

Ni cheir plannu rhywogaethau prysgwydd (e.e. cyll) ar fwy na 10% o'r llain. Ni chaiff prysgwydd gyfrannu at gyfanswm y rywogaethau coed llydanddail y mae'n rhaid eu plannu.

### 618 Gwaith Cyfalaf, Ailstocio Sylfaenol - rhwng 250 a 350 metr

Mae'r opsiwn Gwaith Cyfalaf hwn ar gyfer ailstocio lleiniau lle bydd mwy na 50% o'r llain rhwng 250 a 350 metr uwchben lefel y môr (e.e. 1.4 ha (54%) o'r llain uwchben 250 metr ac 1.2 ha (46%) o dan 250m). Mae'n dderbyniol rhannu'r llain ar hyd y gyfuchlin berthnasol er mwyn gallu defnyddio'r opsiwn priodol uwchben y llinell ac o dani.

Rhaid plannu rhywogaethau coed llydanddail ar o leiaf 10% o ardal yr safle.

Gellir plannu rhywogaethau llydanddail, rhywogaethau conwydd neu gymysgedd o'r ddwy ar weddill ardal y llain (90% ar y mwyaf). Rhaid plannu tair gwahanol rywogaeth fan leiaf, ac ni cheir plannu yr un rhywogaeth ar fwy na 70% o'r llain.

Ni cheir plannu rhywogaethau prysgwydd (e.e. cyll) ar fwy na 10% o'r llain. Ni chaiff prysgwydd gyfrannu at gyfanswm y rhywogaethau coed llydanddail y mae'n rhaid eu plannu.

### 619 Gwaith Cyfalaf, Ailstocio Sylfaenol - o dan 250 metr

Mae'r opsiwn Gwaith Cyfalaf hwn ar gyfer ailstocio lleiniau lle bydd mwy na 50% o'r llain o dan 250 metr uwchben lefel y môr (e.e. 1.4 ha (54%) o'r llain o dan 250 metr ac 1.2 ha (46%) uwchben 250 metr). Mae'n dderbyniol rhannu'r llain ar hyd y gyfuchlin berthnasol er mwyn gallu defnyddio'r opsiwn priodol uwchben y llinell ac o dani.

Rhaid plannu rhywogaethau coed llydanddail ar o leiaf 10% o ardal y llain.

Gellir plannu rhywogaethau llydanddail, rhywogaethau conwydd neu gymysgedd o'r ddwy ar weddill ardal y llain (90% ar y mwyaf). Rhaid plannu tair gwahanol rywogaeth fan leiaf, ac ni cheir plannu yr un rhywogaeth ar fwy na 70% o'r llain.

Ni cheir plannu Pyrwydd Sitca ar fwy na 40% o'r llain.

Ni cheir plannu rhywogaethau prysgwydd (e.e. cyll) ar fwy na 10% o'r llain. Ni chaiff prysgwydd gyfrannu at y leiafswm y rhywogaethau coed llydanddail y mae'n rhaid eu plannu.

## 631 Gwaith Cyfalaf, Coed Llydanddail Brodorol

Mae'r opsiwn Gwaith Cyfalaf hwn yn ei gwneud yn ofynnol plannu'r safle i gyd ag amrywiaeth o rywogaethau Coed Llydanddail Brodorol a rhaid i'r rheini bod yn briodol ar gyfer yr ardal.

Ni cheir plannu rhywogaethau prysgwydd (e.e. cyll) ar fwy nag 20% o'r llain.

## 632 Gwaith Cyfalaf, Coed Llydanddail Brodorol

Mae'r opsiwn Gwaith Cyfalaf hwn yn ei gwneud yn ofynnol plannu rhywogaethau coed llydanddail brodorol ar 80% o'r safle. Gellir plannu naill ai rhywogaethau coed llydanddail brodorol neu anfrodorol ar yr 20% sy'n weddill.

Ni cheir plannu rhywogaethau prysgwydd (e.e. cyll) ar fwy nag 20% o'r llain.

## Mannau Agored

Mae dwysedd y stocio a ddangosir yn y manylebau plannu wedi'i seilio ar nifer y coesynnau yr hectar a'r rhagdybiaeth yw y caiff yr ardal sydd wedi'i gynnwys yn y contract lle y cwympwyd y coed gael ei hailstocio'n llawn â choed i'r dwysedd a benodir yn y contract.

Rhaid mapio ardaloedd o fannau agored/ardaloedd lle nad oes modd plannu e.e traciau a glannau afonydd oddi fewn i'r coetir sydd yn 0.1ha neu'n fwy a'u heithrio o'r ardal sy'n cael cymorth grant. Nid yw'r ardaloedd yma yn gymwys ar gyfer cymorth o dan Glastir Adfer Coetir.

Gellir cynnwys mannau agored gwasgaredig a rhai nad oes modd eu mapio (h.y. llai na 0.1ha) yn yr ardal blannu hyd at gyfanswm o 15% o'r ardal i gyd. O dan amgylchiadau o'r fath, bydd angen nodi hyn ar y Cynllun Rheoli Coedwig. Bydd angen ichi gynyddu nifer y coesynnau ar bob hectar mewn rhannau eraill o'r safle er mwyn gwneud iawn am y tir sydd heb ei blannu ac i sicrhau bod nifer y coed sy'n ofynnol dan y contract yn cael eu plannu.

## Cyfraddau'r Taliadau

Mae'r tabl isod yn rhestru cyfraddau'r taliadau ar gyfer gwaith Cyfalaf. Mae'r gwaith a chyfraddau'r taliadau'n gorfod cael eu cymeradwyo gan y Comisiwn Ewropeaidd. Mae'n bosibl y bydd yr eitemau isod a chyfraddau'r taliadau ar eu cyfer yn newid yn sgil y gymeradwyaeth hon.

| Gwaith Cyfalaf | Math o Ailstocio | £ / Ha |
|---|---|---|
| 615 | Sylfaenol | £1,900 |
| 618 | Sylfaenol | £1,900 |
| 619 | Sylfaenol | £2,300 |
| 631 | Llydanddail brodorol | £2,770 |
| 632 | Llydanddail | £2,770 |

## Gwaith Cyfalaf Arall

Yn y tabl isod, rhestrir eitemau Gwaith Cyfalaf ychwanegol sydd ar gael o dan gynllun Adfer Coetir Glastir a chyfraddau'r taliadau ar eu cyfer. Mae'r eitemau hyn ar gyfer paratoi'r safle i alluogi ailstocio a gwaith i amddiffyn yr ardal sy'n dod o dan y Contract rhag pori. Rhaid i'r eitemau'r Gwaith Cyfalaf a chyfraddau'r taliadau gael eu cymeradwyo gan y Comisiwn Ewropeaidd. Mae'n bosibl y bydd yr eitemau a restrir isod a chyfraddau'r taliadau ar eu cyfer yn newid yn sgil y gymeradwyaeth hon.

| Rhif y Gwaith Cyfalaf | Disgrifiad | Cyfradd (£) |
|---|---|---|
| 549 | Sedd uchel | £348.33 yr un |
| 595 | Ffensio postyn a gwifren a Stocrwydi | £3.48 / m |
| 600 | Gât pren meddal | £150 yr un |
| 602 | Ffensio rhag ceirw | £3.98 / m |
| 654 | Rheoli mieri/prysgwydd - chwistrellu â llaw/o fag cefn | £185 / ha |
| 663 | Rheoli Rhododendron/llawryf <1.5m | £3,882.60 / ha |
| 666 | Clirio prysgwydd - mecanyddol | £227 / ha |
| 669 | Rheoli rhywogaethau ymledol | £1179.00 / ha |
| 670 | Rheoli Rhododendron/llawryf <2.5m | £7461.13 / ha |
| 671 | Rheoli Rhododendron/llawryf 1.5-2.5m | £5129.10/ha |

Dim ond at ddiben sefydlu coed y mae taliadau gwaith cyfalaf yn gymwys ar gyfer rheoli Rhododendron/llawryf. Nid yw clirio Rhododendron a llawryf at ddiben atal clefydau'n gymwys o dan y cynllun hwn

## Rhanddirymiad

Mewn rhai amgylchiadau, mae posibilrwydd y medr caniatáu rhanddirymiad i addasu termau neu dynnu'n ôl gofynion eich contract. Caiff ceisiadau ei asesu yn ôl ei theilyngdod os na fedrwch gyflawni'r holl, neu ran, o'r gwaith erbyn dyddiad cwblhau eich contract.

Rhaid ichi ofyn i Lywodraeth Cymru am randdirymiad drwy lythyr cyn gynted ag y bydd problem yn codi sy'n eich atal rhag cwblhau'r gwaith a hynny cyn i'r cyfnod plannu penodedig ddod i ben. Dylech hefyd roi tystiolaeth yn gefn i'ch cais am randdirymiad.

Ble na chaiff rhanddirymiad ei derbyn, mae'n bosib bydd eich contract yn cael ei dynnu'n ôl, adennill taliadau a byddwch yn cael ei atal rhag mynegi diddordeb am gyfnod o 2 flynedd.

## Ymgynghori

Os ydych chi'n bwriadu gwneud gwaith ar safle dynodedig neu wrth ymyl safle dynodedig, rhaid cyflawni pob ymgynghoriad angenrheidiol e.e. Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SSSI), Ardal Gadwraeth Arbennig (SAC), en Restredig (SAM), Nodwedd Hanesyddol yn yr Amgylchedd (HEF) a Pharc a Gardd a darparu'r ymatebion gyda'r Cynllun Rheoli Coedwig, sydd wedi neu heb eu Cofrestru.

Mae angen ystyried a oes unrhyw rhywogaethau gwarchodedig ( e.e. ystlumod, pathewod) ar y safle ac fe all fod gofyn ymgynghori â'r awdurdod priodol. Efallai hefyd bydd angen i chi geisio i Cyfoeth Naturiol Cymru am drwydded Rhywogaethau a Warchodir gan Ewrop fel rhan o eich cais am drwydded cwympo.

## Defnydd o Chwynladdwr

Ni ddylai ddefnyddio chwynladdwr i drin ail-dyfiant bonyn ar llydanddail brodorol i'r safle oddi mewn PAWS.

# Adran E - Sut i wneud Cais

## Dethol Datganiad o Diddordeb

### Taliadau Gwledig Cymru (RPW) Ar-lein

Rhaid Datgan Diddordeb yn Glastir Adfer Coetir trwy Taliadau Gwledig Cymru (RPW) Ar-lein. Os oes gennych Gyfeirnod Cwsmer (CRN) eisoes, fe ddylech fod wedi cael llythyr gyda'ch Cod Defnyddio arno ichi allu agor cyfrif. Os ydych wedi'i golli, ffoniwch y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004 (Llun – Iau 8:30am – 5.00pm, Gwener 8:30am – 4.30pm) a rhoi'ch CRN i'r cysylltydd. Caiff Cod Defnyddio newydd ei anfon atoch.

Ar ôl ichi gofrestru, gallwch fynd yn syth i'ch cyfrif RPW Ar-lein o rpwonline.wales.gov.uk. Fe welwch ffurflen Datgan Diddordeb yn Glastir Adfer Coetir yn yr adran Ceisiadau a Hawliadau

Os oes gennych asiant yn gweithio ar eich rhan, bydd gofyn iddo gofrestru fel asiant ar RPW Ar-lein. Os nad ydych wedi gwneud hyn eto, dylech lenwi'r ffurflen Manylion Asiant / Undeb Ffermwyr (Cymru) ar unwaith. Mae copi o'r ffurflen ar gael ar rpwonline.wales.gov.uk. Ar ôl i'r ffurflen ein cyrraedd, byddwn yn anfon CRN Asiant ato a Chod Defnyddio RPW Ar-lein. Bydd gofyn llenwi Ffurflen Ganiatâd Cymdeithasau hefyd i gytuno ar rolau'r cleient. Cedwir copi o'r ffurflen hon ar rpwonline.wales.gov.uk

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am gofrestru ar RPW Ar-lein neu am Ddatgan Diddordeb, ffoniwch y Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar 0300 062 5004. Byddan nhw'n gallu eich cynghori a rhoi gwybod ichi ble gallwch fynd am help digidol.

Am fwy o wybodaeth ar RPW Ar-lein a sut i gyflawni Datganiad o Ddiddordeb yn Glastir Adfer Coetir ewch at Grantiau a thaliadau gwledig.

### Y Broses Ddewis

Detholir y sawl sy'n Mynegi Diddordeb ar sail eu gallu i gyflawni'r meini prawf cymhwysedd, a dibynnu ar y gyllideb a fydd ar gael. Y gyllideb amodol sydd ar gael ar gyfer y DOD yn Adfer Coetir Glastir yma fydd £2 Filiwn. Os na fydd y gyllideb sydd ar gael yn ddigon i gynnig contract i bob ymgeisydd cymwys, bydd Llywodraeth Cymru'n blaenoriaethu'r sawl sydd â Hysbysiad Iechyd Planhigion Statudol, wedyn y rheini sy'n dod o fewn parth cyfyngu'r clefyd, yn nhrefn yr ardal fwyaf gyntaf. Parth cyfyngu'r clefyd ar hyn o bryd yw'r ardal yn dwyrain a'r gogledd lle mae camau rheoli gweithredol ar waith o hyd.

Ar ôl cwblhau'r broses dethol, fe gewch eich hysbysu drwy eich cyfrif RPW Arlein yn cadarnhaucanlyniad eich DOD.

Os caiff eich Datganiad o DdiddordebDOD ei ddewis, bydd angen i chi dderbyn neu wrthod y dewisiad, cadarnhau y Flwyddyn Hawlio ac arwyddo a dychwelyd yr Atodiad Cais a gaiff ei gynnwys yn eich llythyr hysbysiad o ddewis i Llywodraeth Cymru drwy eich cyfrif RPW Ar-lein erbyn y dyddiad a roddir yn y llythyr

Bydd gofyn i chi gadarnhau y Flwyddyn Hawlio yr ydych yn bwriadu cyflwyno eich hawliadau Gwaith Cyfalaf. Mae'r ddwy Flwyddyn Hawlio yn cael eu manylu yn y tabl isod. Gaiff un Flwyddyn Hawliad gael ei dewis fesul DOD.

| | **Dyddiad Cyntaf i gyflwyno hawliad** | **Dyddiad Olaf i gyflwyno hawliad** |
|---|---|---|
| **Blwyddyn Hawlio 1** | 01 Ebrill 2021 | 31 Mawrth 2022 |
| *Neu* | | |
| **Blwyddyn Hawlio 2** | 01 Ebrill 2022 | 31 Mawrth 2023 |

Bydd angen i chi sicrhau y byddwch yn gallu cyflwyno unrhyw hawliad am daliad yn y Flwyddyn Hawlio yr ydych yn dewis, gan amcangyfrif pryd wnewch chi gyflawni y gwaith cyfalaf. **Ni chewch newid y Flwyddyn Hawlio ar ôl i chi dderbyn dewisiad.**

Os wnewch chi wrthod, neu fethu ac ymateb i'r cynnig o ddewis, wedyn caiff eich Datganiad o Ddiddordeb GWR ei dynnu'n ôl a ni fyddwch yn gymwys i gyflwyno Cynllun Rheoli Coetir ar gyfer gwiriad.

## Cynllun Rheoli Coetir

Os bydd eich Mynegiant o Diddordeb yn llwyddiannus ac eich bod yn derbyn y cynnig o ddewisiad, bydd gofyn ichi baratoi Cynllun Rheoli Coetir, a fydd yn rhan o'r sail ar gyfer eich cais Adfer Coetir Glastir. Rhaid ichi gwblhau eich Cynllun Rheoli Coetir a'i ddychwelyd erbyn y dyddiad sydd yn eich llythyr dethol fan hwyraf.

Fe fyddem yn gyrru map digidol sydd yn amlinellu'r parseli a gynhwyswyd yn eich Datganiad o Ddiddordeb i chi. Bydd templed Cynllun Rheoli Coedwig, a chanllawiau'n egluro sut i'w lenwi ynghyd â chanllawiau'n dangos sut i anodi'ch map digidol, ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru. Rhaid ichi ddefnyddio'r dogfennau hyn. Ni allwn dderbyn templedi cynlluniau a mapiau eraill. Os na fyddwch chi'n defnyddio'r rhai swyddogol, bydd eich cais yn annilys.

Cyn paratoi eich Cynllun Rheoli Coedwig, rhaid ichi ddarllen y canllawiau. Rhaid i'r cynllun gydymffurfio â UKFS (Forestry Commission – UK Forestry Standard and Guidelines). Os oes PAWS o fewn eich Datganiad o Ddiddordeb bydd angen i chi ymgynghori Cynlluniwr Coetir Glastir Cofrestredig am gymorth proffesiynol i sicrhau bod eich cais yn cydymffurfio â'r safonau hyn. Bydd y Cynllun Rheoli Coedwig wedyn yn cael ei asesu gan Lywodraeth Cymru i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r safonau. Wrth ei asesu, bydd y wybodaeth yn eich cynllun a'r map yn cael ei hystyried a hefyd pa mor gymwys yw'r gwaith sydd wedi'i gynnwys yn y cais i gael arian o dan y cynllun Adfer Coetir Glastir.

Ar ôl cymeradwyo'r Cynllun Rheoli Coedwig, gellir cynnwys yr eitemau Gwaith Cyfalaf cymwys sydd wedi'u rhestru yn eu Cynllun Rheoli yng nghontract Adfer Coetir Glastir.

## Taliad Cymorth Cynllun Rheoli Coetir – Ailstocio PAWS yn unig

Bydd Cwsmeriaid sydd yn derbyn contract Glastir Adfer Coetir, sydd yn cynnwys PAWS ble mae llarwydd a hyd at 50% dim llarwydd yn gymwys i hawlio £1,500 tuag at y gost o greu'r cynllun. Bydd taliad yn gyfyngedig i un taliad fesul cwsmer. Dylai'r cynllun yma ystyried yr uned rheoli coetir yn ei gyfanrwydd. Ni chaiff unrhyw rhagor o daliadau cynllun rheoli eu ystyried mewn rowndiau olynol o gynlluniau Glastir Coetir.

I fod yn gymwys am y taliad cymorth un tro o £1,500, bydd angen i Gynlluniau Rheoli Coetir sydd yn cynnwys ailstocio PAWS fynd ymlaen i blannu ar ôl derbyniad o gontract GWR ar lein.

**Mi fydd prosesu cymorth am Cynllun GWR ar PAWS yn cychwyn ar ol 1 Ebrill 2021.**

Unwaith wnaiff Llywodraeth Cymru dderbyn y derbyniad o gontract ar lein, ble mae'r contract yn cynnwys PAWS, fe fyddwch yn derbyn ffurflen hawliad cynllun rheoli coetir drwy eich cyfrif RPW Ar lein. Fe fydd angen llenwi'r ffurflen a'i dychwelyd. Unwaith gaiff y ffurflen ei derbyn yn ôl fe fyddem yn ei gwirio a'i phrosesu ac os yn gymwys, fe fydd y taliad yn cael ei phrosesu ai gyrru fesul trosglwyddiad BACS.

Os na gaiff yr ailstocio PAWS ei gario allan fel yr amlinellir yn y contract Glastir Adfer Coetir, fe fydd Llywodraeth Cymru yn adennill y taliad o £1,500. Yn ychwanegol, yn unol â rheolau cyfredol y cynllun ni fyddwch yn medru datgan diddordeb yn Glastir Adfer Coetir am gyfnod o 2 flynedd gan na wnaeth y plannu digwydd.

Os caiff y cynnig o gontract ei wrthod neu os wna dderbynnir ymateb i'r cynnig, ni fydd y cynllun cymeradwyol yn gymwys am gefnogaeth.

## Cynnig Contract

Os bydd eich cais i gynllun Adfer Coetir Glastir yn llwyddiannus, bydd contract Adfer Coetir Glastir yn cael ei gynnig ichi drwy eich cyfrif ar lein sy'n cynnwys yr holl waith neu rywfaint o'r gwaith sydd wedi'i restru yn eich Cynllun Rheoli Coedwig.

Bydd angen ichi dderbyn y contract drwy ddefnyddio y botwm glas drwy eichcyfrif RPW Ar-lein o fewn 14 niwrnod ar ôl ichi gael y cynnig. Bydd hyn yn cadarnhau eich bod yn hapus â thelerau ac amodau'r contract.  Ni fydd modd derbyn derbyniadau sy'n cyrraedd ar ôl y dyddiad hwn a byddant yn cael eu gwrthod gan dynnu'n ôl cynnig o gontract Adfer Coetir Glastir.

Os, ar ôl ichi gael eich dethol, byddwch chi'n penderfynu peidio â bwrw ymlaen â'ch cais neu, os byddwch chi'n penderfynu peidio derbyn y contract o fewn yr amser a ganiateir, ni fyddwch yn gallu gwneud cais o dan gynllun Adfer Coetir Glastir am 2 flynedd arall.

Os penderfynwch chi dynnu'n ôl o'r contract cyn diwedd ymrwymiad y contract (1 flwyddyn ar gyfer Gwaith Cyfalaf, 10 mlynedd ar gyfer Cynnal a Chadw) bydd gofyn ichi ad-dalu'r holl arian rydych wedi'i gael o dan gontract Adfer Coetir Glastir gyda llog.

Os bydd angen unrhyw newidiadau i'r **Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020** yn sgil newidiadau i'r rheoliadau, mae'n bosibl y terfynir contract Adfer Coetir Glastir ar ddiwedd 2020.

## Hawlio Taliad ar gyfer Gwaith Cyfalaf Ailstocio a Ffensio

Gellir taliadau Gwaith Cyfalaf dim ond yn cael eu gwneud i'r buddiolwr y contract ac ni ellir eu gwneud yn uniongyrchol i'r cynrychiolydd o'r buddiolwr , er enghraifft Asiant Coetiroedd.

Caiff hawliadau gwaith cyfalaf eu gwneud drwy yr system Hawlio Gwaith Cyfalaf drwy eich cyfrif RPW Ar-lein ac ar ôl i'r gwaith gael ei gwblhau. Mae’n rhaid i hawliadau gael eu cyflwyno yn y Flwyddyn Hawlio a gadarnhawyd yn ystod dewisiad fel a ddangosir yn y tabl isod ac ar oli i’r gwaith sydd yn cael ei hawlio ei gwblhau.  Dom ond un Flwyddyn Hawlio all gael ei ddynodi i gontract GWR.

| | **Dyddiad Cyntaf i gyflwyno hawliadf** | **Dyddiad Olaf I gyflwyno hawliad** |
|---|---|---|
| **Blwyddyn Hawlio 1** | 01 Ebrill 2021 | 31 Mawrth 2022 |
| **Blwyddyn Hawlio 2** | 01 Ebrill 2022 | 31 Mawrth 2023 |

Bydd pob taliad o dan gynllun Adfer Coetir Glastir yn cael eu talu ar radd safonol.

# Adran F – Newid y Contract

## Trosglwyddo neu Werthu Tir sydd o dan Gontract

Wrth arwyddo'ch contract Glastir - Adfer Coetir, rydych yn gwneud ymrwymiad am 10 mlynedd. Os byddwch yn penderfynu gwerthu neu drosglwyddo'ch tir neu ran ohono yn ystod y 10 mlynedd o ymrwymiad, efallai y bydd gofyn ichi ad-dalu'r arian rydych eisoes wedi'i gael neu gael eich cosbi'n ariannol.

Os ydych am drosglwyddo contract Glastir - Adfer Coetir i feddiannydd newydd, rhaid cael cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru. Os ydy'r meddiannydd newydd yn dewis cymryd eich ymrwymiad chi o dan gontract Glastir - Adfer Coetir oddi arnoch a bod y tir yn dal i fodloni'r meini prawf gofynnol o ran cymhwystra, rhaid i'r meddiannydd newydd barhau â'r ymrwymiad ar y tir hwnnw am weddill cyfnod y contract. Dylid gofalu fod y meddiannydd newydd yn gwybod am yr ymrwymiad Glastir - Adfer Coetir cyn cytuno i drosglwyddo'r tir dan sylw.

Mae'r rheoliadau sydd yn ymwneud a'r cynllun yn atal trosglwyddant o gontract gwaith cyfalaf. Daliwr y contract fydd yr unig fusnes a fydd yn gallu hawlio'r gwaith cyfalaf GWR. Ni fedrir brosesu trosglwyddiad nes bod yr hawliad o waith cyfalaf wedi ei wirio a taliad wedi ei awdurdodi.

Ar ôl trosglwyddo neu werthu rhan o'r tir, rhaid i unrhyw dir rydych wedi'i gadw ac sy'n dal yn rhan o'ch contract Glastir - Adfer Coetir gwreiddiol barhau i fodloni meini prawf gofynnol o ran cymhwystra. Os nad yw, bydd gofyn ichi ad-dalu pob taliad a wnaed ar y tir hwnnw, ynghyd â'r llog.

Os ydych yn trosglwyddo neu'n gwerthu unrhyw dir sy'n rhan o'ch contract Glastir - Adfer Coetir, yna rhaid rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru trwy lythyr o fewn 30 diwrnod ar ôl i hynny ddigwydd. O beidio â rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru, byddwch yn debygol o gael eich cosbi.

Os byddwch yn trosglwyddo neu'n gwerthu tir sydd o dan gontract a bod Llywodraeth Cymru'n credu bod amcanion Glastir - Adfer Coetir wedi'u tanseilio o'r herwydd, gallai'r contract gael ei derfynu ac efallai y bydd yn rhaid ichi ad-dalu pob taliad ynghyd â'r llog.

## Newid y Tir a'r Gofyn i'n Hysbysu am Newidiadau i'r Tir

Rhaid i chi roi gwybod i Lywodraeth Cymru am newidiadau i'ch caeau o fewn 30 diwrnod ar ôl i'r newid ddigwydd. Gallai'r newidiadau hynny gynnwys:

- Cofrestru caeau nad ydynt wedi'u cofrestru gydag IACS o'r blaen (h.y. caeau heb eu cofnodi ar y Ffurflen Gais Sengl (SAF))
- Rhannu caeau yn barhaol
- Uno caeau yn barhaol

- Newid ffiniau caeau
- Newid nodweddion parhaol caeau.

Hefyd, rhaid rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru o fewn y terfyn o 30 diwrnod ar ôl iddo ddigwydd os ydy meddianwyr y tir gan gynnwys perchennog newydd neu denantiaeth newydd, yn newid.

Rhaid rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru am unrhyw newid o fewn 30 diwrnod. Mae gwasanaeth Rheoli Fy Nhir (MML) RPW ar lein wedi cymryd lle pob swyddogaeth yr FM4 papur fydd ddim ar gael rhagor. Gall ddefnyddio MML i hysbysu RPW ynglŷn a chofrestru tir, cyflwyno, neu thrin a newidiadau i nodweddion parhaol, newidiadau i terfynau a throsglwyddo tir. Dilynwch y CYSWLLT yma am cyfarwyddiadau ar sut i ddefnyddio Rheoli Fy Nhir.

## Newidiadau i'r Ddeddfwriaeth (gan gynnwys Dehongliadau Newydd)

Mae Rheoliadau Ewrop yn cael eu newid o dro i dro. Bydd yn rhaid ichi gydymffurfio â'r newidiadau hynny ar ôl i Lywodraeth Cymru eich hysbysu amdanyn nhw.

## Newidiadau i Reolau'r Cynllun

Efallai weithiau, bydd angen newid eich contract. Er enghraifft, efallai y bydd angen diweddaru'r amodau rheoli yn sgil ymchwil wyddonol newydd, newid rheolau'r cynllun yn sgil newidiadau i Gynllun Datblygu Gwledig Cymru neu bennu cyfraddau talu newydd. Byddwn yn cyhoeddi'r newidiadau yn Gwlad ar wefan Llywodraeth Cymru (www.cymru.gov.uk) a, lle bo gofyn, yn ysgrifennu atoch chi.

# Adran G – Arolygon Gweinyddol, Archwiliadau a Chofnodion

Mae Llywodraeth Cymru’n gorfod gwneud yn siŵr bod ffermwyr yn cadw at reolau Glastir - Adfer Coetir. Bydd yn gwneud hynny trwy archwiliadau ar y safle a defnyddio’r Systemau Lleoli Global a lluniau o’r awyr, dronau a chan loeren.

## Arolygon Gweinyddol

Mae angen i Lywodraeth Cymru gwirio pob hawliad cyn taliad. Yn achos Glastir Adfer Coetir mae hyn yn cynnwys ymweliad i’r safle o leiaf unwaith yn ystod cyfnod y contract, os nad yw e wedi cael ei ddewis am archwiliad llawn yn barod. Bydd ymweliadau yn cael eu cario allan gan swyddog technegol coetir cyn i’r taliad gael ei wneud er mwyn cadarnhau for yr eitemau gwaith cyfalaf wedi cael ei cario allan yn gymwys a rheolau’r cynllun. Fedr eich hawliad gael ei leihau neu ei cosbi (gweler adran gosb)

## Archwiliadau Fferm

Bydd angen i swyddogion archwilio gadarnhau’r Gwaith Cyfalaf ar eich daliad a chadarnhau manylion y tir a chywirdeb unrhyw ddogfennau a chofnodion perthnasol.

Gellir cynnal archwiliadau unrhyw adeg o’r flwyddyn ac archwilir yr holl ymrwymiadau a rhwymedigaethau y bydd modd eu harchwilio adeg yr ymweliad. Bydd Llywodraeth Cymru a’r cyrff gorfodi’n gwneud eu gorau glas i beidio a tharfu arnoch yn ormodol ond mae rhai archwiliadau’n gorfod cael eu cynnal heb rybudd. Gall archwiliadau gael eu cynnal fwy nag unwaith mewn blwyddyn.

Os byddwch yn gwrthod caniatáu archwiliad neu’n rhwystro’r archwilydd neu’n peidio â rhoi cymorth rhesymol iddo, fe allech golli’ch taliad a chael eich erlyn.

## Cadw Cofnodion

Rhaid ichi gadw’r holl gofnodion a’r wybodaeth sydd eu hangen arnoch i gadarnhau eich bod wedi rhoi gwybodaeth gyflawn a chywir i ni a’ch bod wedi cadw at eich ymrwymiadau.

Bydd gofyn ichi hefyd:

- Roi gwybodaeth i Lywodraeth Cymru am eich contract Glastir - Adfer Coetir a hynny o fewn y cyfnod a bennir gan Lywodraeth Cymru
- Darparu i Lywodraeth Cymru, ei phersonau â chaniatâd neu ei hasiantwyr, gofnodion, cyfrifon, derbynebau a gwybodaeth arall gan gynnwys cyswllt â data cyfrifiadur sy’n ymwneud â’ch contract Glastir - Adfer Coetir. Rhoi’r hawl i Lywodraeth Cymru gymryd dogfennau neu gofnodion o’r fath i wneud copïau neu i godi darnau ohonyn nhw.

# Adran H – Cosbau

Bydd ffermwyr yn cael eu cosbi pan fydd rheolau Glastir neu ofynion Gwaith Cyfalaf yn cael eu torri.

## Torri'r Contract

Bydd swyddogion yn ymweld â'r lleoliadau i gynnal archwiliadau gweinyddol ac archwiliadau yn y fan a'r lle i weld a ydych yn torri contract Glastir ac os gwelir eich bod, cewch wybod trwy lythyr. Lle gwelir eich bod wedi torri'r contract, byddwn yn lleihau a/neu'n atal eich taliadau gan ddibynnu ar ba mor ddifrifol, mawr, parhaol ac ailadroddus oedd y tramgwydd gan ei gymhwyso i daliadau'r blynyddoedd blaenorol.

Os bydd Llywodraeth Cymru'n credu bod y tramgwydd mor ddifrifol nad oes modd ei gywiro, gallai derfynu'ch Contract. Mewn sefyllfaoedd difrifol iawn, gallai olygu hefyd eich gwahardd rhag ymuno â chynllun Datblygu Gwledig arall am hyd at ddwy flynedd.

Mae Llywodraeth Cymru'n asesu tramgwyddau yn ôl safonau dilysadwy sy'n cyfateb i'r amodau ar gyfer ymuno â'r cynllun. Mae matrics wedi'i lunio i benderfynu ar lefel y gosb i'w rhoi. Mae'r matrics cosbi a'r safonau dilysadwy i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru (www.llyw.cymru)

## Cosbau'r Gwaith Cyfalaf

Os ydych yn hawlio taliadau nad ydynt seiliedig ar arwynebedd, er enghraifft gwaith cyfalaf, a bod Llywodraeth Cymru yn pennu nad yw rhan o'r gost neu'r holl gost sydd wedi'i hawlio yn gymwys, ni fydd taliad am y costau anghymwys. Os pennir bod cyfanswm y costau anghymwys yn fwy na 10% o'r costau cymwys, tynnir swm sy'n gyfwerth â chyfanswm y costau anghymwys oddi ar eich taliad.

Os bydd hawliad ffug yn cael ei wneud, neu os bydd meddianwyr y tir yn methu â rhoi'r wybodaeth angenrheidiol, bydd gwaharddiad ar daliadau ar gyfer y flwyddyn dan sylw a bydd yn rhaid ad-dalu unrhyw symiau sydd eisoes wedi'u talu y flwyddyn honno. Hefyd, byddwch yn cael eich gwahardd rhag cael cymorth o dan unrhyw gynllun Datblygu Gwledig - Amaeth-amgylcheddol a Choedwigaeth – yn ystod y flwyddyn galendr lle gwnaed yr hawliad ffug a'r flwyddyn galendr ganlynol.

# Adran I - Y Drefn Apelio

Mae'r broses apelio yng Nghymru yn cynnig trefn apelio annibynnol ichi os ydych yn teimlo nad yw Llywodraeth Cymru wedi dod i benderfyniad cywir yn ôl rheolau Glastir.

Ni chaiff apêl ei ystyried os, yn dilyn y broses dewis, ni ddewiswyd eich Datganiad o Ddiddordeb oherwydd nad oedd y cyllideb priodol ar gael.

Mae dau gam i'r broses apelio ffurfiol:

- Cam 1: pennaeth y Swyddfa Ranbarthol leol i adolygu'r achos
- Cam 2: Panel Apelio Annibynnol i adolygu'r achos (os bydd y ffermwr yn anhapus â'r penderfyniad yng Ngham 1). Bydd y Panel Annibynnol yn gwneud argymhelliad i'r Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd a fydd wedyn yn penderfynu'n derfynol ar y mater.

Daw'r broses apelio i ben pan gaiff penderfyniad y Gweinidog ei gyhoeddi. Nid oes tâl am gam cyntaf y broses ond codir tâl ar gyfer yr ail gam - £50 am wrandawiad ysgrifenedig a £100 am wrandawiad llafar. Bydd hwn yn cael ei dalu'n ôl i'r apeliwr os bydd ail gam y broses yn llwyddiannus neu'n rhannol lwyddiannus.

Rhaid ichi apelio i'ch Swyddfa Ranbarthol leol cyn pen 60 diwrnod ar ôl derbyn penderfyniad a allai effeithio ar eich taliad.

Cewch fwy o fanylion y broses apelio gan eich Swyddfa Ranbarthol.

## Y Drefn Gwyno

Byddwn yn delio â chwynion o dan God Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gwynion. Cewch fwy o wybodaeth am sut i wneud cwyn gan eich Canolfan Gyswllt i Gwsmeriaid

Mae croeso ichi ysgrifennu at unrhyw Aelod o'r Cynulliad am eich cwyn a hefyd at:

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
Penybont
CF35 5LJ

## Adran J – Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol: Hysbysiad Preifatrwydd

Mae'r hysbysiad hwn yn esbonio sut y bydd Llywodraeth Cymru'n defnyddio'r wybodaeth y byddwch yn ei rhoi ar Ffurflen y Cais Sengl (SAF) neu unrhyw ddogfen arall a ddefnyddir mewn cysylltiad â'ch cais am gymorth o dan daliad uniongyrchol y Polisi Amaethyddol Cyffredin a chynlluniau Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014 – 2020. Mae'n esbonio hefyd sut y bydd Llywodraeth Cymru'n prosesu ac yn defnyddio'ch data personol a'ch hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol.

Rheolydd data'r wybodaeth a gyflwynir fel rhan o SAF 2018 yw Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

Swyddog diogelu data yr wybodaeth honno yw'r Swyddog Diogelu Data, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

E-bost: DataProtectionOfficer@gov.wales

Bydd Llywodraeth Cymru'n prosesu ac yn rheoli'r wybodaeth y byddwch yn ei rhoi iddi yn unol â'i hymrwymiadau a'i dyletswyddau o dan y Rheoliadau Ewropeaidd canlynol:

- Rheoliad y Cyngor (UE) Rhif 1303/2013
- Rheoliad y Cyngor (UE) Rhif 1305/2013
- Rheoliad y Cyngor (UE) Rhif 1306/2013
- Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 640/2014
- Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 807/2014
- Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 808/2014
- Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 809/2014
- Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 908/2014
- Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (UE) rhif 679/2016

Bydd yr wybodaeth yn cael ei defnyddio gan fwyaf i brosesu am gymorth ariannol. Ond, caiff Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r wybodaeth hefyd at bwrpasau eraill, gan gynnwys y rheini sy'n gysylltiedig â'i swyddogaethau a'i dyletswyddau o dan Bolisi Amaethyddol Cyffredin y Gymuned Ewropeaidd a'i hymrwymiadau amgylcheddol statudol.

Mae Llywodraeth Cymru'n casglu data personol er mwyn gallu nodi'ch lleoliad chi a busnes eich fferm. Nid yw Llywodraeth Cymru'n casglu data categori arbennig.

Prosesir y data trwy broses wedi'i hawtomeiddio o reolau busnes sy'n defnyddio Cyfeirnod y Cwsmer (CRN) fel allwedd i fwyafrif yr adroddiadau.

Caiff eich gwybodaeth ei storio yn unol â Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn rhif 908/2014, "Conservation of Accounting Information".

## Rhesymau dros rannu data personol

O dan ddeddfwriaeth yr UE mae'n rhaid sicrhau bod cynllun yn gymwys, ac er mwyn gwneud hyn caiff Llywodraeth Cymru rannu gwybodaeth â:

- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion
- Y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol
- Awdurdodau Lleol Cymru
- Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru
- DEFRA
- Swyddfeydd Amaeth eraill Llywodraeth y DU
- Awdurdodau rheoleiddio, megis Cyllid a Thollau EM, Awdurdodau Lleol, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd, a'r Heddlu.

Yn benodol, defnyddir yr wybodaeth fel a ganlyn:

- croeswirio gwybodaeth a Thrawsgydymffurfio rhwng sefydliadau'r Llywodraeth er mwyn sicrhau nad oes neb yn torri rheolau cynlluniau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin
- cynhyrchu a chyhoeddi mapiau sy'n dangos y tir sydd wedi cael cymorth o dan gynlluniau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin
- llunio adroddiadau o ddata o wahanol ffynonellau a/neu grynodebau ystadegol, ar gyfer eu cyhoeddi
- llywio penderfyniadau sy'n gysylltiedig â newid polisi a chyllid gan gynnwys astudiaethau sy'n cael eu cynnal ar ran Llywodraeth Cymru i lywio gwaith Monitro a Gwerthuso Cynlluniau Datblygu Gwledig
- medru cysylltu â thirfeddianwyr/defnyddwyr mewn argyfwng e.e. rheoli clefydau a rheoli tramgwyddau
- diogelu budd ymgeiswyr mewn cadwraeth tir a materion a all godi yn sgil ymholiadau am ariannu
- caniatáu i bartneriaid allu gwneud eu dyletswyddau cyfreithiol
- ei rhannu ag asiantaethau atal twyll a fydd yn ei defnyddio er mwyn atal twyll a gwyngalchu arian ac er mwyn cadarnhau pwy ydych
- cyhoeddi gwybodaeth benodol ac ymateb i geisiadau am wybodaeth.
- Bydd gwybodaeth yn cael ei rannu gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i'r pwrpas o brosesu a phenderfynu ar ceisiadau am gymorth ariannol o dan gynlluniau Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014 – 2020. Mi fedr Cyfoeth Naturiol Cymru hefyd

ddefnyddion y wybodaeth a gyflwynwyd ar gyfer pwrpasau eraill, sydd yn cynnwys y rhai sydd yn ymwneud gyda eu swyddogaethau o dan eu dyletswyddau statudol a chyfreithiol. Sail cyfreithiol y prosesu yw ei fod yn angenrheidiol er mwyn cyflawni y tasg sydd yn cael ei gario allan o dan yr awdurdod swyddogol a urddwyd i Cyfoeth Naturiol Cymru.

## Cyhoeddi a Datgelu Gwybodaeth

Gall aelod o'r cyhoedd ofyn am gael gweld eich gwybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth bersonol amdanoch. Mae'n bosibl y bydd yn rhaid i Lywodraeth Cymru ryddhau gwybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth bersonol amdanoch, wrth ymateb i gais o'r fath.

Yn ôl Rheoliad y Comisiwn (CE) rhif 908/2014, rhaid i Lywodraeth Cymru gyhoeddi manylion y symiau a dalwyd i fuddiolwyr Polisi Amaethyddol Cyffredin. Cyhoeddir data ar gyfer pob buddiolwr ar wefan y gellir chwilio arni, a bydd yn cynnwys enw a lleoliad y ffermwr/rheolwr tir a manylion y symiau ac enw'r cynllun. Ond, ni ddatgelir enwau'r rheini sy'n cael llai na'r hyn sy'n gyfwerth â €1,250 mewn cymorthdaliadau. Cyhoeddir y data bob blwyddyn ar 31 Mai a bydd y data ar gael am ddwy flynedd o'r dyddiad y cawsant eu cyhoeddi. Bydd yr wybodaeth ar gael ar wefan DEFRA.

## Hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)

Mae'r GDPR yn rhoi hawliau i unigolion mewn perthynas â'r data personol a gedwir amdanynt. Mae'r hawliau hynny'n cynnwys:

- yr hawl i gael gwybod (yr hysbysiad hwn)
- yr hawl i ofyn a chael copïau o'r data personol sydd gan Lywodraeth Cymru amdanynt, er y gall Llywodraeth Cymru gadw peth data weithiau neu wrthod rhoi copïau
- yr hawl, o dan rai amgylchiadau, i rwystro neu gyfyngu Llywodraeth Cymru rhag prosesu data personol
- yr hawl o dan rai amgylchiadau i ofyn am gywiro gwybodaeth anghywir.
- yr hawl o dan rai amgylchiadau i gael data wedi'u dileu (eu hanghofio)

Os hoffech arfer unrhyw un o'r hawliau GDPR hyn, cysylltwch â Llywodraeth Cymru yn y cyfeiriad ar ddechrau'r hysbysiad hwn.

Bydd hawl gan unigolion hefyd i ofyn i'r Comisiynydd Gwybodaeth, sy'n gorfodi ac yn cadw golwg ar y GDPR, farnu a fyddwn, wrth brosesu'ch gwybodaeth bersonol, yn debygol o gadw at amodau'r GDPR. Cysylltwch â’r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 or 0303 123 1113

Wefan: www.ico.gov.uk

## Gofyn am Ragor o Wybodaeth

Am ragor o wybodaeth ynghylch yr wybodaeth fydd yn cael ei chasglu a sut y bydd yn cael ei defnyddio, os oes gennych bryderon ynghylch cywirdeb eich data personol neu os ydych am arfer eich hawliau o dan **Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol**, cysylltwch â Chanolfan Gyswllt i Gwsmeriaid Taliadau Gwledig Cymru.

## Adran K – Manylion Cysylltu

Mae yna wybodaeth bwysig ar wefan Llywodraeth Cymru www.cymru.gov.uk/amgylcheddachefngwlad ac yn Gwlad, y cylchgrawn deufisol www.gwladarlein.org.

Dyma'r manylion cysylltu:

**Y GANOLFAN GYSWLLT I GWSMERIAID**

**Taliadau Gwledig Cymru**

PO Box 1081

Caerdydd

CF11 1SU

Ffôn: 0300 062 5004

Ffacs: 01286 662193

**Cysylltiadau defnyddiol eraill**

Ar gyfer tir sy'n SoDdGA, GNG, ACA neu AGA:

**CYFOETH NATURIOL CYMRU**

d/o Canolfan Gofal Cwsmeriaid

Tŷ Cambria

29 Heol Casnewydd

Caerdydd

CF24 0TP

Ffôn: 0300 065 3000

Ymholiadau cyffredinol: 0300 065 3000 (Llun–Gwener, 8am - 6pm)

Ymholiadau cyffredinol: enquiries@naturalresourceswales.gov.uk

Ymholiadau Glastir: glastirqueries@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Ceisiadau Trwydded Cwympo: specieslicensing@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Ymholiadau Twyddedau EPS: forestregulations@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Ar gyfer Henebion Rhestredig / parciau a gerddi cofrestredig:


**CADW**

Llywodraeth Cymru

Plas Caeriw

Uned 5/7 Cefn Coed

Parc Nantgarw

Caerdydd

CF15 7QQ

Ffôn: 01443 33 6000

Ffacs: 01443 33 6001

E-bost: Cadw@Wales.gsi.gov.uk


Ar gyfer henebion sydd heb eu rhestru a nodweddion hanesyddol:


**Ymddiriedolaeth Archeolegol Clwyd-Powys**

41 Broad Street

Y Trallwng

Powys

SY21 7RR

Ffôn: 01938 553670

Ffacs: 01938 552179

E-bost: trust@cpat.org.uk

www.cpat.org.uk

**Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg-Gwent**

Heathfield House

Heathfield

Abertawe

SA1 6EL

Ffôn: 01792 655208

Ffacs: 01792 474469

E-bost: enquiries@ggat.org.uk

www.ggat.org.uk

**Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd**

Craig Beuno, Ffordd y Garth, Bangor,

Gwynedd, LL57 2RT

Ffôn: 01248 352535

Ffacs: 01248 370925

E-bost: gat@heneb.co.uk

www.heneb.co.uk

**Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed**

Neuadd y Sir, Stryd Caerfyrddin, Llandeilo,

Sir Gaerfyrddin, SA19 6AF

Ffôn: 01558 823121

Ffacs: 01558 823133

E-bost: info@dyfedarchaeology.org.uk

www.dyfedarchaeology.org.uk